# Cynigion a Gwelliannau i'w Trafod ar 9 Mawrth 2005

## Cynigion a gyflwynwyd ar 2 Mawrth 2005

### Y Ddadl Fer

**NDM2343 Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn):** Pwy sy'n Rhedeg y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru.

**NDM2337 David Melding (Canol De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reolau Sefydlog 6.6 a 9.9, yn nodi Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, "Adolygiad o'r Rhyng-gysylltiad rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol", a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mawrth 2005.

**NDM2338 John Marek (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 3, ac yn dilyn adolygiad a gynhaliwyd gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-Swyddogion, yn penderfynu y dylid diwygio Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â'r amodau a'r telerau a ddiwygiwyd yn y Cynllun, a anfonwyd drwy'r e-bost at yr Aelodau ar 1 Mawrth 2005.

**NDM2339 John Marek (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan adrannau 16, 18 a 34A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 3, ac yn dilyn adolygiad a gynhaliwyd gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-Swyddogion, yn cymeradwyo "Penderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Aelodau'r Cynulliad a Swyddogion) (Cyflogau, Lwfansau ac ati)" a anfonwyd drwy'r e-bost at yr Aelodau ar 02 Mawrth 2005.

**NDM2340 Jenny Randerson (Canol Caerdydd):**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a Rheol Sefydlog 37:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a anfonwyd drwy'r e-bost at yr Aelodau ac a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mawrth; a

2. Yn cymeradwyo'r diwygiad a wnaed i'r Rheolau Sefydlog a nodir yn Adroddiad y Pwyllgor Busnes.

**NDM2341 Jane Hutt (Bro Morgannwg):**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo swyddogaethau canlynol y Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn Neddf Plant 2004 i Brif Weinidog y Cynulliad, ac eithrio'r rhai na ellir eu dirprwyo yn ôl y gyfraith:

Adran 25 is-adrannau (8) a (9), Adran 26 is-adran (5), Adran 27 is-adran (4), Adran 28 is-adrannau (4) a (5), Adran 29 is-adrannau (1)(b), (9), (13) ac (14), Adran 30, Adran 34 is-adran (2) a (3), Adran 38, Adran 41 ac Adran 59.

Ni fydd unrhyw beth yn y cynnig hwn yn golygu y caiff goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn na rôl Pwyllgorau'r Cynulliad o ran gweithredu'r swyddogaethau uchod eu lleihau.

Dirprwyir y rhain gan wybod y bydd y swyddogaethau hynny yn cael eu dirprwyo ymhellach, fel y bo'n briodol, i Weinidogion priodol y Cynulliad ac i'r staff.

*Mae Deddf Plant 2004 i'w gweld ar y Rhyngrwyd drwy ddefnyddio'r cyswllt hwn:*
http://www.legislation.hmso.gov.uk/acts/acts2004/20040031.htm

**NDM2342 Jane Hutt (Bro Morgannwg):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 25.13:

1. Yn cymeradwyo'r drafft o Gyfarwyddiadau Pwerau Creu Incwm Awdurdodau Iechyd Arbennig 2005, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 2 Mawrth 2005; ac

2. Yn nodi'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Cyfarwyddiadau hyn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 2 Mawrth 2005.

## Gwelliannau a gyflwynwyd ar 3 Mawrth 2005

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM2341**

**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith bod Llywodraeth Lafur y Cynulliad wedi methu yn ei thrafodaethau gyda'i chydweithwyr yn Llywodraeth y DU ynghylch penderfyniad unfrydol y Cynulliad Cenedlaethol (NDM1939, 4 Mai 2004) y dylid ymestyn pwerau Comisiynydd Plant Cymru i

gynnwys y meysydd polisi hynny nad ydynt wedi’u datganoli.